# Cynyddu defnyddio'r Gymraeg ar sail 'deilliannau': canllaw i sefydliadau sy'n derbyn grant gan y Bwrdd

## Cais am eich cymorth

Dyma'r fersiwn cyhoeddus cyntaf o'r ddogfen hon. O'r herwydd, mae'n siŵr nad ydym wedi mynd i'r afael â'r holl faterion a fydd yn berthnasol i'ch sefydliad pan fyddwch yn mynd i'r afael â chynllunio ar sail deilliannau. Dylid ei hystyried yn ddogfen 'fyw' a all newid ar sail profiad.

Felly, mae'n fwriad gan y Bwrdd adolygu a diweddaru'r ddogfen yn rheolaidd. Gwerthfawrogem eich cymorth a'ch mewnbwn yn hyn o beth. Tybed a fyddai modd i chi anfon sylwadau, beirniadaeth adeiladol, syniadau ar gyfer gwella, neu straeon ynghylch eich profiad o ran defnyddio'r ddogfen atom yn y Bwrdd?

Gallwch gysylltu â'r Bwrdd drwy'r dulliau cyfathrebu arferol neu hyd yn oed anfon y ddogfen yn ôl atom gan farcio newidiadau a sylwadau arni. Ar sail eich profiad chi, gallwn greu fersiwn nesaf y ddogfen a fydd, gobeithio, o fwy o gymorth i chi hyrwyddo'r Gymraeg.

Diolch yn fawr iawn ymlaen llaw am rannu o'ch amser i'r rheini ohonoch a fydd garediced â gwneud hyn a phob hwyl ar y gwaith.

**DR JEREMY EVAS**

*Arweinydd Uned Ymchwil, Technoleg Iaith a Grantiau*

Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Mehefin 2010

# 1 Ariannu ar Sail Deilliannau: canllaw i sefydliadau sy'n derbyn grant gan y Bwrdd


1 Ariannu ar Sail Deilliannau: canllaw i sefydliadau sy'n derbyn grant gan y Bwrdd ..... 3

1.1 Cefndir ..... 4

1.2 Beth yw 'deilliant' yng nghyd destun hyrwyddo'r Gymraeg? ..... 6

1.3 Pam mae deilliannau'n bwysig? ..... 7

1.4 Cynllunio deilliannau'ch gwaith ..... 7

1.5 Diffinio'r Deilliannau ..... 8

1.6 Mesur Deilliannau ..... 8

1.7 Beth os bydd y deilliannau'n negyddol? ..... 11

1.8 Troi eich gweledigaeth ar gyfer cynyddu defnyddio'r Gymraeg yn ddeilliannau ..... 11

1.9 Sut i olrhain cynnydd tuag at gyflawni deilliannau ..... 11

1.10 Gosod Terfynau Amser ..... 11

1.11 Targedau – camau ar y ffordd i gyflawni'r targedau ..... 11

2 Sut i ddangos eich bod wedi cyflawni'ch deilliannau ..... 12

2.1 Cam dau: penderfynu sut i gasglu gwybodaeth ..... 12

2.2 Penderfynu pryd a pha mor aml i gasglu gwybodaeth ..... 13

2.3 Cysylltu deilliannau â'r gweithgarwch ..... 13

3 Targedau i gyflawni'ch deilliannau: Sut i'w llunio, a sut i adrodd ar eu cynnydd 14

3.1 Llunio targedau CAMPUS ..... 14

3.1.1 Beth yw ystyr CAMPUS? ..... 14

3.2 Adrodd ar gynnydd ..... 14

3.3 Diweddglo ..... 15

4 Llyfryddiaeth ..... 17

## *1.1 Cefndir*

Fel pob corff cyhoeddus, rhaid i Fwrdd yr Iaith Gymraeg sicrhau'r gwerth gorau am yr arian mae'n ei wario. Er mwyn gwneud hyn, rhaid medru darparu tystiolaeth o lwyddiant ein gwaith a'r gwaith rydym yn ei ariannu. Un ffordd ymhlith llawer o gyfrannu at wneud hynny yw ariannu ar sail yr hyn a elwir yn 'ddeilliannau'.[1] Fel y nodir ar ein gwefan, ac yn ein gohebiaeth â'r holl gyrff sy'n derbyn grant gennym, bydd Cynllun y Bwrdd, Grantiau i Hyrwyddo'r Gymraeg, yn symud yn raddol i'r system hon o'r flwyddyn ariannol 2011/12 ymlaen. Ein gobaith yw y bydd system o'r fath yn gymorth i chi hefyd adnabod y darnau hynny o'ch gwaith sydd fwyaf effeithiol.

Mae'r dull hwn o ariannu yn gyffredin iawn ymhlith y Sector Cyhoeddus a Gwirfoddol ac wrthi'n cael ei fabwysiadu'n ehangach. Er mwyn cael rhagor o gefndir am yr angen i gynllunio ar sail deilliannau, byddai'n ddefnyddiol i chi ddarllen adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus: Heriau ariannol y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu a'r gwersi a ddysgwyd o'n gwaith*. Prif ganlyniadau'r adroddiad hwnnw yw'r canlynol:

> "Mae'r gwersi o'n gwaith [h.y. Swyddfa Archwilio Cymru] dros y pum mlynedd diwethaf yn dangos y bydd angen i ymatebion y gwasanaethau cyhoeddus fod yn seiliedig ar y canlynol:
>
> - dull strategol a chynaliadwy o weithredu sydd wedi'i gynllunio'n drwyadl a'i seilio ar ddadansoddiad cadarn o'r dystiolaeth, sydd hefyd yn cysylltu cynllunio ariannol â'r gwaith o gynllunio'r ddarpariaeth ac yn nodi dull cadarn o fesur cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau;
> - dull o gydweithio sy'n canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau a rennir o safbwynt dinasyddion;
> - ymagwedd aeddfed at risg sy'n cydbwyso'r angen am lywodraethu a rheoli cadarn â'r angen i wasanaethau cyhoeddus fentro'n ofalus a threfnus er mwyn newid a gwella gwasanaethau;
> - sicrhau'r gwaith gorau gan bawb sy'n gweithio yn y gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys cyflwyno ffyrdd callach a mwy hyblyg o weithio;
> - ymagwedd at effeithlonrwydd sy'n fwy cynhwysfawr a radical, sy'n canolbwyntio ar arloesi
> - gwella canlyniadau yn hytrach na lleihau costau'n unig."

Mae'r ddogfen hon yn ymateb i'r canlynol:

- y sefyllfa ariannol anodd sydd ohoni
- yr angen i ddefnyddio'r adnoddau prin sydd gennym i gynyddu defnyddio'r Gymraeg ac er y budd ieithyddol gorau i siaradwyr Cymraeg
- y cyfarwyddyd a'r canllaw ariannol a amlinellwyd uchod.

Ei nod tymor hir yw galluogi i ni, yr arianwyr, ac i chi, y sefydliadau sy'n derbyn grantiau gennym, leihau gwaith biwrocrataidd diangen ac arbed amser, wrth wella ansawdd yr wybodaeth a gesglir ynghylch effaith ein cyllid ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg. Cydnabyddwn yn ddiolchgar yn arbennig gymorth Cronfa'r Loteri Fawr wrth baratoi'r ddogfen hon. Bydd cyflwyno unrhyw system newydd yn sicr o godi cwestiynau, ac mae'r Bwrdd yn ymrwymo i ystyried eich adborth ar gyfer y blynyddoedd sy'n dod ac i addasu'r system lle bo angen. Gydag unrhyw system newydd, mae elfen o derminoleg newydd yn dod. Mae rhestr eirfa fer isod er mwyn cynorthwyo i chi ymgyfarwyddo â'r maes:

---

[1] Nodwyd yn argymhellion Adroddiad Archwilio Mewnol Pricewaterhouse Coopers ar Grantiau a Rheoli Prosiectau, Ionawr 2010, y dylai'r Bwrdd fesur effeithiau'r grantiau a ddyrennir ar y defnydd o'r Gymraeg ac y dylai pob targed a gytunir gyda'r cyrff grant i weithredu'r deilliannau hynny a hefyd yng nghyswllt y prosiectau a ariennir fod yn rhai CAMPUS. Gweler hefyd adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cymunedau'n Gyntaf*, Chwefror 2010 (www.cynulliadcymru.org).

- Allbwn (Output) – cynnyrch, gwasanaethau neu gyfleusterau sy'n cael eu cynhyrchu gan weithgareddau sefydliad/prosiect
- Deilliannau (Outcomes) - y newidiadau, y buddion, y dysgu neu effeithiau eraill sy'n digwydd oherwydd y prosiect neu'r hyn y mae'r sefydliad yn ei wneud/cynnig/darparu
- Traweffaith (Impact) - effeithiau ehangach neu dymor hwy oherwydd allbynnau, deilliannau a gweithgareddau prosiect neu sefydliad.
- Ymyrraeth Polisi (Policy Intervention) - yn achos y Bwrdd, grant/prosiect/gweithgarwch ei swyddogion/contractwyr i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg

Y peth cyntaf i'w nodi yw nad *gwerthuso* yw gweithio ar sail deilliannau. Mae eu cynllunio yn dechrau *cyn* ymyrraeth polisi (defnyddir 'ymyrraeth polisi' i olygu grant/prosiect/gweithgarwch neu amser swyddogion/contractwr o unrhyw fath a roddir tuag at nodau cynllunio ieithyddol). Mae gwerthuso yn digwydd *ar ganol neu ar ôl* prosiect ac nid yw, o reidrwydd, yn asesu traweffaith neu gyflawni deilliannau. Gall, er enghraifft, asesu i ba raddau y rheolwyd prosiect yn dda, neu y graddau y bu iddo ddiwallu ei dargedau. Nid yw'r un o'r ddau bosibilrwydd hyn yn gyfystyr ag asesu ei draweffaith yn yr hirdymor. Felly, mesurir traweffaith, nid yn unig er mwyn meddu ar wybodaeth reolaethol, ond er mwyn gwybod - o bosib flynyddoedd wedi dirwyn ymyrraeth polisi i ben - pa effaith, o'i chymharu â'r bwriad gwreiddiol, a gafodd yr ymyrraeth honno.

Wrth symud i ddull ariannu sy'n seiliedig ar ddeilliannau ieithyddol, bydd y Bwrdd yn gofyn i gyrff y mae'n eu hariannu ddarparu tystiolaeth o'r gwahaniaeth y mae eu gwaith wedi ei wneud i ddefnydd iaith. Mae monitro mewnol yn y corff grant ei hun yn cynorthwyo'r corff i ddeall ymhle mae'n llwyddo ac ymhle mae angen gwella. Ni fydd un dull yn gweddu i bob corff, ond mae'n debygol y bydd yn gymysgedd o wybodaeth feintiol, (er enghraifft, i brofi bod y targedau grant wedi eu cyrraedd a fydd yn sbarduno taliadau nesaf y grant) a gwybodaeth ansoddol – er enghraifft, y newidiadau yn nheimladau, agweddau a/neu ymddygiad pobl yng nghyd-destun y corff dan sylw a'i ymwneud â'r Gymraeg. Mae Plant Mewn Angen yn awgrymu defnyddio offerynnau megis holiaduron, cyfweliadau un-wrth-un a dyddiaduron fideo. Gellid hefyd ystyried Cofnodion Dysgu Gwersi Ffurfiol (o fethodolegau Rheoli Prosiect), Rheithgorau Dinasyddion, Fforymau Sirol (mae sawl un eisoes yn bod), a mynd i'r afael yn fwy â Chyd-greu (cocreation), sy'n cynnwys pobl ym mhrosesau cynllunio'r ymyraethau polisi sydd i fod i effeithio arnynt. O gynnwys defnyddwyr gwasanaethau'n llwyr o'r cychwyn cyntaf un, gallai fod yn haws derbyn eu hadborth ar y draweffaith ieithyddol arnynt. Mae cymorth i wneud hyn yn sawl un o'r cyhoeddiadau a gynhwysir yn y llyfryddiaeth isod.

Un o'r dulliau mwyaf poblogaidd, a syml, y mae llawer o'r sector gwirfoddol yn ei defnyddio ar gyfer profi deilliannau a llwyddiant gwaith yw'r cynllun *Prove It!* Mae *Prove It!* (www.proveandimprove.org.uk) yn darparu pecynnau offer hawdd eu defnyddio a'u haddasu. Rydym yn argymell i'r sefydliadau sy'n derbyn grant gennym ystyried ei ddefnyddio, gan gynnwys y taenlenni tracio effaith mae'n eu darparu. A chrynhoi egwyddorion *Prove It!*, tâl inni ddyfynnu peth o'i weledigaeth o ran deilliannau:

- Being participative increases the community's sense that it owns the measures
- Indicators validate social as opposed to physical outcomes
- Participative measurement becomes part of the project, in that it contributes to the building of trust
- It is flexibility and adaptability
- Useful in education policymakers and funders
- Will help to stimulate action.

I sefydliadau sydd wrthi'n ymgorffori deilliannau i'w prosesau gwaith, mae gan *Prove It* gyngor manwl. Dichon y byddwch yn dod ar draws gwrthwynebiad, neu deimlad bod y dull yn tynnu oddi ar brif ffocws eich gwaith:

> Some people in your organisation and elsewhere may be hostile to measuring. It may seem like policing or a way of highlighting the weak parts of their projects. There are three things you can do in response. First, involve them, so that measuring feels like something they do, not something that is done to them. Second, decide which of the benefits listed above are most important to them. Put them into your own words, with examples from your own experience. Third, but more long-term, create a climate in which mistakes are seen as opportunities to learn, not reasons for blame.

- *Prove it!* Grew out of the recognition that what gets measured, matters, and that many positive outcomes of regeneration go unnoticed because only the things that are easy to count get counted.
- *Prove it!* Is about keeping evaluation simple, manageable and possible within the limited resources that small-scale projects have available to them. An approach involving data collection methods that are fun an easy to use can encourage ownership of the project and make it more likely that evaluation becomes part of the culture of an organisation, rather than a burden.
- The principle behind *Prove it!* Is to make the collection of data part of the process of regeneration in itself. Many of the overriding aims of a project (e.g. improving the social capital of a community) can be achieved by involving local people in its evaluation as well as its delivery. Our experience tells us that evaluation can add real value, build capacity of local groups and people, and can demonstrate impact on quality of life'.
- 'I think it's fantastic. It assists – it's not a burden. It isn't dry either – it helps you to be imaginative about the project'.[2]

## *1.2 Beth yw 'deilliant' yng nghyd destun hyrwyddo'r Gymraeg?*

Yn sylfaenol, yn y cyd-destun hwn, ystyr deilliannau yw'r gwahaniaethau *ieithyddol* mae'r darn o waith penodol yn eu cyflawni (nid y gwaith a wneir neu'r targedau a gyrhaeddir er mwyn eu cyflawni). Cynllunnir y deilliannau, er mwyn cynyddu defnyddio'r Gymraeg mewn ardal neu bau arbennig (ceir enghreifftiau isod).[3] Mae'r broses hon, wedyn, yn arwain at dargedau sy'n nodi'r gweithgareddau sydd i'w cwblhau er mwyn cynyddu defnyddio'r Gymraeg. Er cysondeb, cyfeirir at 'ddeilliannau' o hyn allan, yn hytrach na 'newidiadau', 'canlyniadau' neu 'welliannau' ayb.

---

[2] Mae'r holl ddyfyniadau hyn wedi eu tynnu o *Prove It! Its development and its potential for evaluating community-based regeneration projects.* New Economics Foundation, 2004.

[3] Defnyddiwn 'pau' i olygu sefyllfa, neu fath o sefyllfa y defnyddir iaith ynddi, e.e. yn draddodiadol, roedd y Capel a'r Cartref yn ddwy o beuoedd cryfaf y Gymraeg. Yn ôl diffiniad mwy cymdeithasegol dechnegol yr Athro Joshua Fishman (awdur y gyfrol *Reversing Language Shift, diffinnir 'pau' fel a ganlyn* "a sociocultural construct abstracted from topics of communication, relationships and interactions between communicators, and locales of communication in accord with the institutions of a society and the spheres of activity a culture in such a way that individual behaviour and social patterns can be distinguished and yet related to each other."

## 1.3 Pam mae deilliannau'n bwysig?

Gall ymwybyddiaeth o ddeilliannau'ch gwaith eich cynorthwyo i weithio'n fwy effeithiol. Gall hefyd eich cynorthwyo i ganfod beth sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei newid neu ei wella, a'r hyn y gellid ei drosglwyddo i sefydliadau eraill. Bydd hefyd yn eich cynorthwyo i gynllunio'n fwy strategol, i adrodd yn ôl yn fwy effeithiol ar lwyddiant eich gwaith, i nodi pa wersi y gall pobl eraill ddysgu o'ch profiad, ac i chi a'ch swyddogion adnabod a *dathlu* llwyddiant eich gwaith.

Gall casglu gwybodaeth am ddeilliannau arwain at fanteision eraill hefyd:

- Gall cyd-ddealltwriaeth o'r hyn y mae sefydliad yn disgwyl i'w prosiect ei gyflawni gyfrannu at fwy o ymdeimlad o *bwrpas* o fewn y corff a gwneud staff a gwirfoddolwyr hyd yn oed yn fwy ymwybodol o'r pwrpas hwnnw.
- Gall tystiolaeth o ddeilliant effeithio'n gadarnhaol ar staff a buddiolwyr wrth iddynt weld y cynnydd y mae eu gwaith yn ei wneud o ran cynyddu defnyddio'r Gymraeg.
- Gall cynllunio gweithgarwch o amgylch yr hyn sy'n gweithio ym mhrofiad sefydliadau sy'n derbyn grant wneud y sefydliadau hynny yn fwy effeithiol ac effeithlon yn y pen draw. Gall peidio â chasglu mwy o wybodaeth na'r hyn sydd ei angen leihau'r amser y byddant yn ei dreulio ar waith monitro a gweinyddu. Rydym yn llwyr ymwybodol bod sawl corff sy'n derbyn grant gan y Bwrdd eisoes yn adrodd i gyrff ariannu eraill hefyd, a lle bo'n briodol, gallech ailddefnyddio tystiolaeth rydych eisoes yn ei chasglu iddynt hwy i brofi deilliannau grantiau'r Bwrdd
- Gall casglu gwybodaeth briodol ar ddeilliannau gynorthwyo i ddangos i arianwyr eraill bod y mudiad yn un sy'n dysgu – ac yn datblygu a gwella.

## 1.4 Cynllunio deilliannau'ch gwaith

Dylech feddwl am y weledigaeth sydd eisoes gennych yn gyntaf a sut y'i rhoddir ar waith yn eich gweithgarwch: a oes angen ei mireinio? E.e. pa sefyllfa rydych am gynyddu defnyddio'r Gymraeg ynddi: Pwy fydd yn defnyddio'r Gymraeg? Faint ohonynt? Ymhle? Pa mor aml? Ym mha sefyllfaoedd newydd/lle na ddefnyddid y Gymraeg o'r blaen? Ai *cynnal* lefel defnydd yw'r deilliant arfaethedig lle bu'r lefel yn dirywio mewn cyfnod blaenorol? Faint o gynnydd y sydd eisiau er mwyn gwireddu'r deilliant? Sut y byddwch yn gwybod eich bod yn nesáu at gyflawni'r deilliant. Ni ddylech feddwl yn nhermau targedau, allbynnau a chyfanswm y gwariant. Daw'r rheini, a'r esboniadau ohonynt, wedyn. O'u crynhoi mewn brawddeg, ein cyngor i sefydliadau sy'n llunio deilliannau yw "Dechreuwch gyda'r diwedd [ieithyddol] mewn cof." Mae gweddill y ddogfen hon yn eich cynorthwyo i wneud hyn.

Felly, dylai deilliant fynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol mewn modd y gellir ei fesur:

- Beth yw'r *cynnydd* y bwriedir ei wneud i'r defnydd o'r Gymraeg (neu *cynnal* y defnydd lle bu'n dirywio)?
- Pwy a faint o bobl fydd yn elwa? Beth fydd y newidiadau ieithyddol iddyn nhw?
- Sut gallwn brofi bod cynnydd wedi digwydd a phriodoli'r newid i'r gwariant ar y gweithgarwch? (sut mae'r bobl sy'n cymryd rhan yn y gweithgarwch arfaethedig yn mynd i roi adborth ar y newidiadau ieithyddol iddyn nhw)
- Ydy'r deilliannau'n benodol, yn gyraeddadwy ac yn realistig yng nghyd-destun yr arian sy'n debygol o fod ar gael?
- Oes modd cyflawni'r deilliannau o fewn bywyd y gweithgarwch, neu a fydd angen mynd yn ôl i'w harchwilio ymhen amser? (nid ydym, wrth reswm, yn disgwyl i gyrff grant lwyr newid patrymau ieithyddol hir sefydledig o fewn blwyddyn ariannol yn unig)
- Oes cysylltiad clir rhwng y dystiolaeth o angen y prosiect a'i ddeilliannau?

- Ydy'r deilliannau'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol Bwrdd yr Iaith Gymraeg? (ar gael ar ein gwefan)

Fel y gwelwch o'r ffurflen gais am grant, mae'r egwyddorion hyn wedi eu hymgorffori i'n prosesau ymgeisio a bydd rheolwyr grant y Bwrdd yn cynorthwyo sefydliadau sy'n derbyn grant gennym i ddrafftio deilliannau, a'r targedau sy'n cyfrannu at eu cyflawni, wedi i'r llythyrau cynnig grant gael eu hanfon (fel arfer ym mis Rhagfyr). Bydd hyn, fel arfer, yn cael ei wneud mewn cyfarfod wyneb yn wyneb. Ni fydd disgwyl i chi greu gormod o ddeilliannau ac fel y nodwyd uchod, ein bwriad, yn y pen draw, yw *lleihau* gwaith adrodd a chaniatáu i chi ganolbwyntio ar eich gwaith craidd, sef cynyddu defnyddio'r Gymraeg. Bydd cyflwyniadau PowerPoint ar ddeilliannau hefyd ar gael ar wefan y Bwrdd y gallech gyfeirio atynt cyn i chi gyfarfod â'ch rheolwr grant.[4]

## *1.5 Diffinio'r Deilliannau*

Dylid cynllunio a diffinio ymlaen llaw y deilliannau rydych am eu cyflawni gyda'r arian grant a ddaw gan y Bwrdd. Bydd gwneud hyn yn eich cynorthwyo i benderfynu pa waith yn union y dylid ei wneud, beth yw blaenoriaethau'r gwahanol ddarnau o waith (gelwir darnau o waith a gwblheir yn 'allbynnau') a pha weithgarwch y bydd angen cyllid ar ei gyfer. Bydd y wybodaeth hon, wedyn, yn bwydo i mewn i'r *targedau* y byddwch yn cytuno arnynt â rheolwyr grant y Bwrdd. Bydd gwybodaeth am ddeilliannau yn helpu i ddangos i'r Bwrdd ac i arianwyr eraill, bod y grant yn gwneud gwahaniaeth i ddefnydd o'r iaith Gymraeg.

## *1.6 Mesur Deilliannau*


Dylid sicrhau bod gan eich sefydliad gynlluniau cadarn i olrhain a mesur y deilliannau y byddwch yn cytuno arnynt gyda ni. Nid oes disgwyl i chi fonitro popeth yn ddi-baid - ar gyfer sefydliadau mwy, bydd adrodd ar ddeilliannau *sampl* o'ch prosiectau yn ddigonol. Sylwer hefyd nad ar lefel gweithgarwch y sefydliad *cyfan* y disgwylir i chi adrodd ar ddeilliannau, ond ar sail prosiectau unigol (neu sampl ohonynt) y bydd y corff hwnnw yn eu gweithredu. Eto, gall *Prove It!* fod o gymorth mawr yn hyn o beth.

Dyma ychydig wybodaeth a fydd yn eich cynorthwyo i adrodd ar gynnydd y gwaith. Mae cyflwyniadau PowerPoint ar ddeilliannau hefyd ar gael sy'n rhoi gwybodaeth am y broses hon, felly hefyd hyfforddiant ar lunio deilliannau.

Ceir enghreifftiau o sut y mae deilliannau'n ffitio i mewn i strategaeth sefydliadau yn y pyramidiau isod.[5]

[4] Nid ydym yn disgwyl i waith monitro a gwerthuso deilliannau fod yn fwrn gormodol ar y cyrff sy'n derbyn grantiau gennym. Yn unol â Chod Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector, byddwn yn mabwysiadu "agwedd gydweithredol at fonitro a gwerthuso – y gweithdrefnau symlaf sy'n cyd-fynd â sicrhau'r defnydd priodol o arian cyhoeddus."

[5] Dywed canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi i gyrff sy'n dyrannu grantiau, "Funding bodies clearly need to focus some attention on the 'process' of awarding funds, and on the appraisal, evaluation, and audit requirements they may wish to apply. But the primary concern for funding bodies should be whether the framework they develop for making decisions contributes to achieving the outcomes desired for those funds. Note that 'outcomes' (the generic result of any inputs or outputs) has a different meaning to 'outputs' (the measurable or numeric results from any given input)" t. 10, Trysorlys EM 2006




**Ffigur 1: Enghraifft - sut mae deilliannau'n ffitio i mewn i gynllunio strategol sefydliadau**




**Ffigur 2: Enghraifft syml o ddeilliant ar waith mewn corff sy'n hybu'r Gymraeg yn y gymuned: Trosglwyddo Iaith**

Wrth lunio deilliannau, dylid ystyried sut byddwch yn gwybod pan fydd newid wedi digwydd a sut y byddwch yn gwybod bod cynnydd wedi'i wneud tuag at gyflawni'r deilliant. Soniwyd am *Prove It!* a'i rinweddau uchod, ond mae cynlluniau eraill ar gael hefyd (gweler y llyfryddiaeth ar dudalen on page 17. Mae rhai mudiadau ieuenctid, er enghraifft, yn defnyddio canllawiau drafft Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Dangos Llwyddiant,* holiadur i asesu effaith gweithgarwch ar Sgiliau a Thueddiadau Cymdeithasol ac Emosiynol (SEDS). Mae'r holiadur yn dilyn yr un egwyddor â *Prove It!* sef holi pobl ddwywaith: unwaith ar ddechrau cyfres o weithgareddau, a thro arall, wedi sawl sesiwn, am yr effaith a gafodd y gweithgaredd ar eu hymddygiad. Mae hefyd yn nodi'r posibilrwydd o ddefnyddio sawl dull i fesur effaith yr un prosiect, boed yn ansoddol, ac yn feintiol.[6]

Gall y rhain, er enghraifft, gynnwys arsylwi, holiaduron, arolygon, grwpiau ffocws, dyddiaduron fideo a chyfweliadau unigol. Mae modd bwrw golwg dros ganllawiau drafft y a

[6] Dywed Canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi (2006) "Monitoring, evaluation and audit costs are legitimate costs of the full cost of providing a service. This provides a concrete incentive for funders and purchasers to implement the lead funder principle in order to drive down costs, whilst retaining the same level of accountability for public funds and without compromising outcomes."

geir ar wefan www.demonstratingsuccess.co.uk, un o brosiectau Llywodraeth Cynulliad Cymru, a wneir gan Arad Consulting.

## 1.7 Beth os bydd y deilliannau'n negyddol?

Y gobaith, wrth reswm, yw y bydd deilliannau'ch gwaith yn cael eu cyflawni ac yn arwain at gynyddu defnyddio'r Gymraeg. Mae'n bosibl, fodd bynnag, y byddwch yn gweld deilliannau y byddai'n well gennych beidio â'u gweld; e.e. efallai y bydd clwb ieuenctid newydd y byddwch yn ei sefydlu fel un o'ch targedau yn denu nifer cynyddol o aelodau newydd a byddant yn elwa o'r gweithgareddau ond heb fod yn defnyddio'r Gymraeg. Dylid adrodd ar hyn a thrafod pa weithgarwch y gellir ei gynnal er mwyn newid y sefyllfa er gwell. Mae'n syniad herio'ch hun yn gyson - bydd gwir ystyried yr union effaith y byddwch yn dymuno ei chael ar y Gymraeg ymhell ymlaen llaw yn cynorthwyo i osgoi sefyllfa negyddol, ond os cyfyd sefyllfa o'r fath, holwch eich hun beth y gellir ei newid er mwyn gwella'r sefyllfa. Pa weithgarwch arall y dylid ei drefnu? A ddylid dod â'r prosiect penodol hwnnw i ben a threulio amser ar rywbeth mwy llwyddiannus?

## 1.8 Troi eich gweledigaeth ar gyfer cynyddu defnyddio'r Gymraeg yn ddeilliannau

Efallai y bydd nifer o ddeilliannau yn codi o weledigaeth eich sefydliad. Ein cyngor yw y dylech ond casglu gwybodaeth fanwl am y rhai pwysicaf yn unig yng nghyd-destun cynyddu defnyddio'r Gymraeg. Er mwyn cadw pethau mor syml â phosibl, dylech flaenoriaethu eich prif ddeilliannau – y rhai a fydd yn rhoi'r wybodaeth mwyaf cynhwysfawr, o'r ansawdd uchaf, am eich cynnydd tuag at newid arferion defnyddio iaith.

## 1.9 Sut i olrhain cynnydd tuag at gyflawni deilliannau

Pan fyddwch wedi cytuno ar y deilliannau ar y cyd â rheolwr y grant yn y Bwrdd, bydd angen creu dull o olrhain eu cynnydd wrth eu cyflawni. Bydd gosod cerrig milltir a thargedau ar gyfer 'allbynnau' yn eich helpu i weld a yw'r gweithgarwch ar y trywydd iawn. Bydd hyn yn fodd o ddangos anawsterau posibl mewn da bryd hefyd. Y brif egwyddor yn hyn o beth, wrth reswm, yw meddu ar waelodlin cyfredol ar gyfer y deilliant - beth yw'r sefyllfa gyfredol o ran y bobl y bwriedir iddynt gymryd rhan mewn gweithgarwch?

## 1.10 Gosod Terfynau Amser

Wrth benderfynu ar eich deilliannau bydd angen adnabod y lefel neu'r graddau y byddwch yn disgwyl eu cyrraedd yn gyfan gwbl o fewn un flwyddyn ariannol, e.e. mae "Hyder Ieithyddol Uwch i Siaradwyr Cymraeg Ardal X" neu "Mwy i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn sefydliad Y" yn ddeilliannau y gallai targedau gael eu gosod ar eu cyfer dros nifer o flynyddoedd a bydd system monitro gyson yn fodd o olrhain y cynnydd tuag atynt dros gyfnod estynedig o amser.

Wrth osod terfynau amser, mae'n bwysig cofio na fydd *pawb* sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r prosiect yn cyflawni'r deilliannau arfaethedig. Gall y gynulleidfa darged, er enghraifft, beidio â pharhau i fynychu gweithgaredd neu'i gilydd.

## 1.11 Targedau – camau ar y ffordd i gyflawni'r targedau

Bydd rhaid i chi fod wedi gwneud rhai pethau cyn mynd ati i gyflawni'r deilliannau rydych am eu cyflawni. Gall hyn gynnwys cyflogi aelod newydd o staff, creu deunyddiau angenrheidiol,

cynnal X o gyfarfodydd ayb. Gellid defnyddio'r rhain fel targedau cerrig milltir i'ch helpu i ddilyn cynnydd eich gweithgarwch tuag at gyflawni'r deilliannau. Yn y gorffennol, bu'r Bwrdd yn gofyn i chi lunio'r targedau hyn ar eich ffurflen gais. Fe nodwch fod newid yn y drefn eleni a bod y rhain wedi eu dileu, ac mai ar 'ddeilliannau' yr ydym yn canolbwyntio. Wedi i'r Bwrdd gynnig grant i chi, byddwch yn cytuno ar ddeilliannau ar y cyd â'ch rheolwr grant. Byddwch hefyd yn cytuno ar dargedau i'w cyflawni. Mae'n eithriadol o bwysig bod pob un o'ch targedau ar ffurf 'CAMPUS' [Cyraeddadwy; Amserol; Mesuradwy; Penodol; Uchelgeisiol; Synhwyrol] neu (neu 'SMART' [specific; measurable; agreed upon; realistic and time-based] yn Saesneg). Ceir canllaw manwl yn Adran 3 isod ar sut mae llunio targedau ar ffurf CAMPUS.

# 2 Sut i ddangos eich bod wedi cyflawni'ch deilliannau

Wrth i'ch gwaith fynd yn ei flaen, bydd disgwyl i chi nodi a yw'ch targedau'n cael eu gweithredu yn unol â'r amserlen a gytunwyd â rheolwyr grant y Bwrdd. Nid oes angen llawer o wybodaeth yn hyn o beth (gweler adran 3 isod am ganllaw ar sut i adrodd ar dargedau). Y sefyllfa rydym yn dymuno ymgyrraedd ati yw, yn raddol, ac yn unol â'r egwyddorion a geir yn y ddogfen hon, eich bod yn dangos tystiolaeth o'r graddau y mae'r *deilliannau* wedi eu cyrraedd ai peidio.

Gall dangosyddion deilliant fod yn:

- feintiol – pan fydd y cyrff grant yn casglu ffigurau fel, e.e. y nifer o bobl sydd yn nodi newid ymddygiad yn sgil gweithgarwch e.e. sesiwn ymwybyddiaeth iaith neu
- ansoddol – pan fydd y cyrff grant yn asesu barn a phrofiadau pobl, e.e. pa mor hyderus maen nhw teimlo wrth drafod llyfrau yn Gymraeg.

Byddwch yn sicr o ddod ar draws nifer o ddangosyddion posibl ar gyfer pob deilliant. Bydd cynlluniau megis *Prove It!* yn gymorth yn hyn o beth.

## *2.1 Penderfynu sut i gasglu gwybodaeth*

Mae sawl ffordd o gasglu gwybodaeth ar ddeilliannau. Dylech feddwl am rai sy'n berthnasol ac yn gymesur â'ch gweithgarwch arfaethedig cyn i chi gyfarfod â rheolwyr eich grant. Bydd eich rheolwr grant yn trafod eich syniadau ar sut mae gwneud hyn. Yn ogystal â systemau syml megis *Prove It!*, gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am gasglu gwybodaeth yn Ellis, J. *Practical Monitoring and Evaluation,* gan y Gwasanaeth Gwerthuso Elusennau, Llundain (2002) a hefyd yn sawl un arall o'r eitemau a restrir yn llyfryddiaeth y ddogfen hon.

Mae'r rhai a ddefnyddir amlaf yn cynnwys:

- Holiaduron dros amser ar *effaith* gweithgarwch ar unigolyn, yn hytrach na boddhad unigolyn â'r gweithgarwch;
- arsylwi;
- cyfweliadau gyda'r sawl sydd wedi cymryd rhan yn y gweithgarwch;
- cadw cofnodion a nodiadau;
- ystyried amseru – casglu gwybodaeth fel ei bod yn cyd-fynd â'r amser cynllunio ond gan gofio ei bod yn cymryd mwy o amser i gyflawni rhai deilliannau nag eraill;
- cofiwch fod yn agored gyda'ch buddiolwyr – dylid egluro'r rhesymau dros gasglu gwybodaeth a sut y bydd yn cael ei defnyddio. Gall rhai pobl fwynhau'r cyfle i rannu eu profiadau ond ni ddylid pwyso ar neb i roi gwybodaeth os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny;

- bydd casglu gwybodaeth fwy nag unwaith oddi wrth yr un unigolion yn golygu na ellir casglu gwybodaeth yn ddienw. Dylid sicrhau'r buddiolwyr y bydd y wybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel ac na fydd adroddiadau na dogfennau cyhoeddus eraill yn gallu arwain yn ôl at unigolion y gellir eu hadnabod (cofiwch hefyd fod angen cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data).

## *2.2 Penderfynu pryd a pha mor aml i gasglu gwybodaeth*

Mae casglu gwybodaeth yn gyson am ddeilliannau yn eich cynorthwyo i gymharu'ch cynnydd yn erbyn y deilliannau. Fel y nodwyd uchod, dylid casglu gwybodaeth er mwyn sefydlu gwaelodlinau cyn lansio'r gweithgarwch. Dyma'r 'data dechreuol' a gellir cymharu hwn â data diweddarach.

Bydd angen casglu gwybodaeth am ganlyniadau ar adegau penodol yn ystod oes y prosiect. Dylid parhau i feddwl yn ofalus pa wybodaeth mae'n werth ei chasglu. Bydd cyflawni rhai deilliannau yn cymryd amser hir – wedi oes y gweithgarwch hyd yn oed - ac efallai na fydd diben mewn casglu gwybodaeth am *bob un* o'r deilliannau bob tro. Dylid ystyried yn ofalus pa mor aml y dylid e.e. cyfweld buddiolwyr neu ofyn iddyn nhw lenwi holiaduron.

Mae modd hefyd ystyried cysylltu â buddiolwyr wedi i weithgarwch ddod i ben er mwyn darganfod beth oedd ei effeithiau hir dymor ar eu defnydd o'r Gymraeg.

## *2.3 Cysylltu deilliannau â'r gweithgarwch*

Pan fydd hi'n argoeli'n dda o ran cynnydd tuag at eich deilliannau, gall fod yn anodd i brofi bod y cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn deillio'n uniongyrchol o'r prosiect, ac i ynysu effaith cyllid y Bwrdd. Mae'n bosibl y byddai'r newid wedi digwydd yn naturiol neu am resymau eraill. Os yw hyn yn digwydd, dylech fwrw ymlaen i ddatblygu'r achos cryfaf posibl trwy holi e.e. buddiolwyr a swyddogion perthnasol beth sydd wedi arwain at y canlyniad, neu sut, yn eu tyb hwy, mae'r prosiect wedi cyfrannu tuag y deilliant.

Efallai na fydd modd i chi gysylltu deilliant ag elfen benodol o'r gweithgarwch. Dylid cofio y gall nifer o fudiadau sy'n gweithio yn yr un maes gael yr un effaith. Os yw'r newid yn un hir dymor, bydd yn fwy anodd i unrhyw gorff grant hawlio mai ei waith ef sy'n gyfrifol am hyn. Dylech geisio darganfod sut y mae prosiect wedi gweithio mewn cydweithrediad ag asiantaethau neu bartneriaid eraill i gyflawni deilliannau penodol a beth oedd eu cyfraniad nhw. Bydd gwybodaeth fel hon yn werthfawr i ni ac i asiantaethau eraill sydd yn eich cyllido.[7]

[7] Dywed Canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi (2006) "The main determinant of the nature of the financial relationship [rhwng y corf ariannu a'r corf sy'n derbyn grant] is the nature of the intended outcomes"

# 3 Sut i lunio targedau, a sut i adrodd ar eu cynnydd

## 3.1 Llunio targedau CAMPUS

Nodwyd yn adran 1.1 uchod mai prif nod ein holl waith yw hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg. Er mwyn gwybod pa gynnydd a wnawn gyda'r gwaith hwn, sefydlwyd yr egwyddor wedyn yn adran 1.3 bod angen cynllunio ein gweithgarwch ar sail deilliannau. Nodwyd wedyn, yn adran 1.10 bod targedau yn codi o'r deilliannau hynny. Ein prif ffocws polisi fel arianwyr yw gwybod i ba raddau rydych wedi cyflawni'ch deilliannau. Fodd bynnag, mae gennym gyfrifoldeb dros wariant cyhoeddus hefyd a rhaid inni sicrhau bod y gweithgarwch a gytunir tuag at y deilliannau hyn yn cael ei weithredu'n briodol. O'r herwydd, mae gofyn i chi adrodd ar dargedau yn gryno iawn wrth hawlio taliadau'ch grant. Isod, ceir canllaw ar sut mae llunio ac adrodd ar dargedau CAMPUS, a hwnnw wedi'i lunio ar brofiad ein gwaith dros y blynyddoedd diwethaf.

### 3.1.1 Beth yw ystyr CAMPUS?

- Cyraeddadwy
- Amserol
- Mesuradwy
- Priodol
- Uchelgeisiol
- Synhwyrol

Er enghraifft, mae'n bosib, mai *'Cynyddu hyder X o bobl ifanc 13-17 oed i gymdeithasu yn y Gymraeg'* yw'r deilliant y byddwch am ymgyrraedd tuag ato. Er mwyn cyfrannu at hyn, mae'n bosibl cytuno ar y targed "sefydlu clwb ieuenctid cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc yr ardal". Isod, ceir enghreifftiau o dargedau gwael ac un targed derbyniol (bydd natur y targedau hyn yn newid yn ôl natur a maint y grantiau a gynigir. Yr egwyddor i'w chofio yw bod yn gymesur - casglu *digon* o wybodaeth i brofi effaith eich gwaith heb gwympo i fagl 'analysis paralysis.'

| |
|---|
| × Ystyried y posibiliad o sefydlu clwb ieuenctid...<br>× Edrych ar sefydlu clwb ieuenctid...<br>× Gweithio i sefydlu clwb ieuenctid...<br>× Sefydlu Pwyllgor i weithio tuag at y nod o sefydlu clwb ieuenctid... |
| ✓ Erbyn 31 Hydref 2013, sefydlu clwb ieuenctid yn NhreX, i gwrdd unwaith y mis i ddarparu cyfleon i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn awyrgylch anffurfiol yn gymdeithasol. Cyfartaledd o 20 person ifanc i fynychu'r clwb yn y sesiynau a gynhelir rhwng 31 Hydref a 31 Mawrth 2010. Defnyddio holiaduron a methodoleg *Dangos Llwyddiant* â phobl ifanc wrth sefydlu'r clwb ac yn chwe-misol wedi hynny, i olrhain datblygiad eu sgiliau a'u hunan hyder yn y Gymraeg. |

## 3.2 Adrodd ar gynnydd

Er mwyn i chi hawlio taliad, bydd y Bwrdd yn gofyn am adroddiadau cynnydd wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. Os bydd y targedau, sy'n cyfrannu at y deilliannau a gytunwyd, wedi eu llunio yn unol â'r canllawiau a geir yn y ddogfen hon, bydd yn haws adrodd ar

gynnydd mewn modd penodol a chryno. Dyma rai pethau i'w hystyried wrth adrodd ar gynnydd:

1. Dylid osgoi gosodiadau cyffredinol:

    - ✘ *ar waith*
    - ✘ *mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen*
    - ✘ *i ddilyn*
    - ✘ *heb ddigwydd.*

    Nodwch yn gryno beth yn union, a faint, sydd wedi digwydd. Os nad oes cynnydd hyd yn hyn, nodwch pryd bydd yn digwydd a beth yw'r rhesymau nad yw wedi digwydd hyd yn hyn.

    *Er enghraifft: Os mai'r deilliant yw "cynyddu hyder pobl i'w galluogi i ddefnyddio technoleg gwybodaeth Cymraeg",* mae'n bosibl mai'r canlynol fydd un o'r targedau: "cynnal 10 gweithdy hybu technoleg erbyn 12/12/2014 gyda 20 person ymhob un i fod wedi newid eu cyfrifiaduron i'r Gymraeg a magu agwedd iachach tuag at ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd ar ddiwedd y broses." Dyma ddwy ffordd o adrodd ar y targed hwn:

| |
|---|
| ✘ Nid yw hwn wedi digwydd eto |
| ✓ Nid yw'r gweithdai wedi cael eu cynnal eto. Rydym wedi llunio rhestr o 30 o wahoddedigion i bob un, a bydd y gweithdy cyntaf yn cael ei gynnal cyn 31 Ionawr 2014, gyda'r gweddill yn digwydd yn fisol wedi hynny. |

## *3.3 Diweddglo*

Hyderwn fod y ddogfen hon wedi rhoi blas ar weithio tuag at ddeilliannau i chi ac y bydd o gymorth i chi wrth i chi fynd ati i gynyddu defnyddio'r Gymraeg. Byddem yn croesawu adborth arni. Er bod y ddogfen yn weddol hir, mae'i hegwyddorion yn syml:

- Dechreuwch gynllunio â'r diwedd yn eich meddwl
- Heriwch eich hun yn gyson - a yw'r *holl* weithgarwch a wneir gyda'ch grant yn cyfrannu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol tuag at gynyddu defnyddio'r Gymraeg
- Casglwch wybodaeth *ddigonol* nid gormodol er mwyn profi bod eich deilliannau wedi eu cyflawni. Byddwch gymesur.
- Cynhwyswch ddefnyddwyr eich gwasanaethau ymhob rhan o'r cynllunio a'r mesur
- Wedi i chi ddechrau derbyn gwybodaeth ar eich deilliannau, beth, os unrhyw beth, mae angen ei newid er mwyn gwella'ch perfformiad?

Mae'n bosibl bod sawl corff sy'n derbyn grant gan y Bwrdd eisoes wrthi'n gweithredu ar sail system deilliannau i gyrff ariannu eraill. I'r rhain, ac i'r cyrff sy'n newydd i ddeilliannau, ein gobaith yw y bydd yn ddull i chi gyson wella'ch dulliau o gynyddu defnyddio'r Gymraeg. Wedi i chi weithredu ar sail deilliannau, mae'n bosibl y byddwch am feintioli gwerth cymdeithasol eich gwaith, h.y. ar gyfer pob £X, cynhyrchir £Y o fudd ieithyddol. Mae methodolegau megis *Plugging the Leaks* a SROI (Social Return on Investment) y cyfeirir atynt yn y llyfryddiaeth isod yn cynorthwyo i chi wneud hyn. Am y tro, gorffennwn y ddogfen gyda chrynodeb bach o'r hyn yw deilliannau o du Cronfa Treftadaeth y Loteri. Ystyr 'deilliannau' yw:

*" Y newidiadau neu'r gwahaniaeth y gall prosiectau a'n rhaglenni ariannu eu gwneud dros gyfnod o amser."*

- ✓ Deilliannau terfynol
- ✓ Gwahaniaethau i fuddiolwyr
- ✗ Nid manylion yr hyn a *wnaed*

# 4 Llyfryddiaeth


| **Awdur/Sefydliad** | **Blwyddyn** | **Teitl** |
|---|---|---|
| Baker, Colin | 2003 | The Impact of Welsh Language Planning: Monitoring, Measuring and Moderating (papur trafod mewnol heb ei gyhoeddi, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Caerdydd. |
| BBC Plant mewn Angen | 2009 | *How are you doing?* |
| BBC Plant mewn Angen | 2009 | *Reporting Back: The Information you Will need to write your report*. |
| BIS (Yr Adran dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau) | 2009 | Impact Assessment www.berr.gov.uk/whatwedo/bre/consultation-guidance/page33340.html. |
| Bwrdd yr Iaith Gymraeg | 2007 | *Cynllun Ymchwil a Gwerthuso 2007-2014* |
| Cook, Tim | 2001 | *Reflections on Good Grant Making*, by Tim Cook, former clerk to the Trustees of the City Parochial Foundation, Association of Charitable Foundations, Llundain. |
| Cronfa Tretadaeth y Loteri | 2010 | Gwefan y Gronfa http://www.hlf.org.uk/Pages/Home.aspx cyrchwyd 25/5/2010 |
| Cronfa'r Loteri Fawr | 2009 | *Research and Learning Strategy 2009-15* |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Pwyllgor Archwilio) | 2010 | *Cymunedau'n Gyntaf*. |
| Gershon, Peter (Syr) | 2004 | *Releasing Resources to the Front Line: An Independent View of Public Sector Efficiency* (comisiynwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi). |
| Fishman, Joshua | 1972 | *The Sociology of Language: An Interdisciplinary Social Science Approach to Language in Society*, Newbury House, Rowley, Massachusetts. |
| Foras na Gaeilge | 2008 | Ffurflenni cais am grantiau a blaenoriaethau strategol, Foras na Gaeilge, Dulyn. |
| Friedman, M. | 2009 | *Trying Hard is Not Enough: How to Produce Measurable Improvements for Customers and Communities,* FPSI Publishing (Ail argraffiad) |
| Gwasanaeth Gwerthuso Elusennau | 2002 | *Practical Monitoring and Evaluation.* |
| Gwasanaeth Gwerthuso Elusennau | 2007 | *Your Project and its Outcomes.* |
| Gwasanaeth Gwerthuso Elusennau | 2009 | *Jargonbuster: Simplifying the language of planning, project management and performance improvement to increase understanding.* |
| IAIA (Y Gymdeithas Ryngwladol dros asesu traweffaith) | 2003 | *Social Impact Assessment: International Principles.* |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru | 2009 | *Cod Ymarfer ar gyfer ariannu'r Sector Gwirfoddol* |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru | 2008 | *Gwneud gwahaniaeth: Arferion da Cymunedau yn Gyntaf* |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru | 2009 | Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Caerdydd. |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru (Yr Is-adran Strategaeth Plant a Phobl Ifanc, yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. | 2009 | *Llawlyfr i ymarferwyr* (Drafft 5). Cynhyrchwyd gan Arad Consulting ar y cyd â Debbie Watson, a Carl Emery ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru (ar gael ar www.demonstratingsuccess.org). |
| NEF Consulting | 2004 | *Prove It!* Toolkit: Background http://www.proveandimprove.org./new/tools/proveit.php |
| Pricewaterhouse Coopers | 2010 | Adroddiad Archwilwyr Mewnol Bwrdd yr Iaith Gymraeg. |
| Purdon, S; Lessof, C; Woodfield, K & Bryson, C (Canolfan Ymcwhil ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol) Adran Gwaith a Phensiynau | 2001 | Research methods for Policy Evaluation: Department for Work and Pensions Research Working Paper No 2 |
| Results Leadership Group (Gwefan) | 2010 | www.resultsleadership.org <Cyrchwyd 25/06/2010> |
| Rheoli yng ngwasanaeth cyhoeddus Cymru (PSMW: Llywodraeth Cynulliad Cymru) | 2008 | *Cyd-greu: Adroddiad Newydd ar Gyfer Cyflwyno Gwasanaethau Cyhoeddus yn yr 21ain Ganrif.* |
| Sefydliad yr Economeg Newydd | 2010 | Gwefan y Sefydliad http://www.neweconomics.org/ [cyrchwyd |

| **Awdur/Sefydliad** | **Blwyddyn** | **Teitl** |
|---|---|---|
| | | 12/06/2010] |
| Sefydliad yr Economeg Newydd | 2008 | Plugging the Leaks: Local Ecnomic Development as if people and the planet mattered http://www.pluggingtheleaks.org/ [cyrchwyd 12/06/2010] |
| Swyddfa Archwilio Cymru | 2007 | *Y gyfnewidfa arfer da: Rheoli Grantiau*. [cyrchwyd 12/06/2010] |
| Swyddfa Archwilio Cymru | 2010 | *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus: Heriau ariannol y mae gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu a'r gwersi a ddysgwyd o'n gwaith*. |
| Swyddfa Rheoleiddio Gwell | 2009 | (Pro forma) Summary: Intervention & Options |
| Swyddfa Rheoleiddio Gwell | 2009 | *Impact Assessment Guidance* |
| Swyddfa'r Cabinet: Swyddfa'r Trydydd Sector | 2009 | *A Guide To Social Return on Investmen*t, Swyddfa'r Cabinet, mewn cysylltiad â'r Social Return on Investment Network, NEF, Gwasanaeth Gwerthuso Elusennau, NCVO, New Philanthropy Capital a Llywodraeth yr Alban. |
| Trysorlys Ei Mawrhydi | 2002 | *The role of the voluntary sector in public Service delivery – Guidance to funders*. |
| Trysorlys Ei Mawrhydi (Uned Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth) | 2003 | *The Green Book: Appraisal and evaluation in Central Government.* |
| Trysorlys Ei Mawrhydi (Uned Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth) | 2007 | *The Magenta Book: guidance notes for policy evaluation and analysis.* |
| The Social Audit Network | 2010 | Gwefan y Rhwydwaith: <www.socialauditnetwork.org.uk> *[cyrchwyd 2010/04/10].* |
| Unwin, Julia | 2004 | *The Grantmaking Tango: Issues for Funders*, The Baring Foundation, Llundain. |
| Walker, P; Lewis; J; Lingayah, S & Sommer, F. | 2000 | *Prove it! Measuring the effect of neighbourhood renewal on local people*, Groundwork, the New Economics Foundation and Barclays PLC. |